



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyletswyddau Cydraddoldeb
Penodol i Gymru
Adroddiad Blynyddol 2011-12**

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2 - 3
2.	Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Perthnasol	3 - 4
3.	Defnyddio'r wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru	4 - 5
4.	Beth Gyflawnwyd	5 - 8
5.	Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb	8 - 11
6.	Gwybodaeth Cyflogaeth	11 - 14

1. Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol newydd ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Ndeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth

- Gwahaniaethau tâl
- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Perthnasol

I alluogi'r Awdurdod i adnabod a chasglu gwybodaeth mewn ffordd effeithlon a chost effeithiol i oleuo'r broses o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i ddarparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer yr Amcanion Cydraddoldeb o fewn iddo, chyd-ymunodd yr Awdurdod gyda phob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwllans Cymru o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (cyfeirir ato fel "y Rhwydwaith" ar ôl hyn).

Mae'r Rhwydwaith wedi galluogi'r Awdurdod i gydweithio gyda phartneriaid awdurdod cyhoeddus i ddatblygu a hwyluso ymgynghoriad arloesol ar y cyd ar draws gogledd Cymru.

Cynhaliwyd y Digwyddiad Rhanbarthol ar gyfer Rhanddeiliaid dydd Mawrth, yr 20fed o Fedi 2011 yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno. Roedd dros 40 o grwpiau, sefydliadau ac elusennau yn bresennol a oedd yn cynrychioli pob un o'r nodweddion a ddiogelir.

Yn ychwanegol i'r ymgynghoriad ledled gogledd Cymru ar y cyd, ymgynghorodd yr Awdurdod gyda'i staff, aelodau, grwpiau a fforymau lleol.

Ynghyd ac ymgynghoriadau cyhoeddus, mae ymchwil cenedlaethol wedi bod yn bwysig o ran paratoi man cychwyn ar gyfer sylweddoli ac adnabod anghydraddoldeb yng Ngogledd Cymru. Ymgwymerwyd â chwiliad helaeth o'r dystiolaeth sydd ar gael o gwmpas anghydraddoldeb gan y Rhwydwaith, er mwyn gallu archwilio'r data manwl sydd angen ei ystyried wrth ddatblygu'r amcanion a rennir. Yn ychwanegol at hynny, edrychodd yr Awdurdod ar ei wybodaeth ei hun er mwyn gweld a oes tueddiadau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu.

O'r herwydd maint bychan a'r adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod, mae cydweithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill yng ngogledd Cymru wedi profi i fod yn ffordd cost effeithiol ac effeithlon i'r Awdurdod i gyrraedd ei nod. Mae cydweithio yn y ffordd yma nid yn unig wedi bod yn fuddiol i bob partner, ond bu'n fuddiol i'r ymgynghorwyr (gyda nifer ohonynt yn gweithio yn wirfoddol) gan eu bod wedi gallu cymryd rhan mewn un ymgynghoriad mawr ar draws gogledd Cymru yn lle mynychu nifer o ymgynghoriadau unigol yr awdurdodau.

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Wedi dadansoddi'r wybodaeth a oedd ar gael ac yn dilyn yr ymarferiad ymgynghorol, datblygwyd 6 o amcanion lefel uchel, a'r rhain fydd y 6 amcan mabwysiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

I gyd-fynd gyda phob amcan mae set o feysydd gweithredu. Mae'r meysydd gweithredu yn diffinio'r 6 amcan ac yn paratoi'r sylfaen i bob partner allu cynllunio eu cyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Er bod pob partner wedi ymrwymo eu hunain i'r 6 amcan lefel uchaf, mae'r Rhwydwaith wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**
2. Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
5. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
6. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Allan o'r 6 Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u nodi uwchlaw, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Amcanion Cydraddoldeb canlynol ynghyd â'r meysydd gweithredu sydd ynghlwm iddynt:

- A1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

A3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac fe eir i'r afael â hwy

A4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

A5. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

A6. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd fynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

4. Beth Gyflawnwyd

Bu i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod cael eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 14eg o Fawrth 2012. Gan fod hyn ar ddiwedd 2011-12 y flwyddyn ac adroddir arno, ni ellir adrodd ar unrhyw gynnydd sylweddol ar hyn o bryd. Pryn bynnag, mi fydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012-13 yn gallu adrodd yn llawn ar y cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion Gwella.

Pryn bynnag, yn ystod 2011-12 roedd y gwaith yn parhau ar gwblhau'r cynllun gweithredu o fewn Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yr Awdurdod. Yn unol â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei Gynllun Cydraddoldeb Anabledd cyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Cafodd y cynllun hwn ei adolygu yn 2009 a mabwysiadwyd cynllun gweithredu 3 mlynedd newydd. Penderfynodd Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Eryri i ymgorffori prif nodau eu cynllun i'r prif Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r canlynol yn grynodedb o sut yr atebodd yr Awdurdod ofynion y ddyletswydd cydraddoldeb anableded yn y cyfnod yn arwain at fabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

Cynnwys Pobl Anabl

- i) Fforwm Cydraddoldeb Anableded Eryri yw'r prif gyfrwng ymgynghori'r Awdurdod. Gyda Denis McAteer, aelod o'r Awdurdod yn cadeirio, mae'r Fforwm yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn. Mae gan y Fforwm gynrychiolaeth eang o bobl anabl a phobl sy'n cynrychioli budd pobl anabl yn ogystal â chynrychiolaeth o staff ac aelodau'r Parc Cenedlaethol. Mae yma gyfle i gyrff cyhoeddus eraill sydd â diddordeb i fynychu hefyd.
- ii) Eleni cyfarfu'r Fforwm ar Fehefin y 9fed a Thachwedd yr 11eg. Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn ystod 2011oedd yr Adeilad newydd arfaethedig yn Ogwen; y Strategaeth Hamdden a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Ar ran y Fforwm danfonwyd llythyrau yn cefnogi ymgyrch Clwb Sgiwyr Anabl Plas y Brenin i gadw'r llethr sgïo ar agor. Llythyr i Gyngor Gwynedd yn mynegi pryder y Fforwm ynghylch yr effaith niweidiol all newid tabl amser cludiant cyhoeddus ei gael ar fywydau pobl anabl.

- iii) Yn ystod yn ymgynghori ar yr adeilad newydd yn Ogwen, yn ogystal â chyfle i'r Fforwm drafod y datblygiad cafodd y cynlluniau eu haddasu i adlewyrchu barn y Grŵp Mynediad lleol.
- iv) Yn ogystal â'r cyfle i ymgynghori'n ffurfiol yn y Fforwm mae'r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o bwysigrwydd ymgynghori anffurfiol. Anogir aelodau o'r staff i ymuno ar y teithiau, a thrwy ddod i adnabod pobl anabl fel unigolion cant gwell ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

Cyfathrebu

- i) Derbyniodd y staff perthnasol ganllawiau a'r sut i gyflwyno gwybodaeth glir, drwy gyfrwng CD ROM 'See it Right' gyhoeddwyd gan yr RNIB.
- ii) Cwblhaodd dîm y we'r 'Apps' ar gyfer ffonau symudol. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth ar lwybrau hygyrch.

Mynediad

- i) Mae gwaith uwchraddio'r llwybr rhwng Capel Curig a Llyn Ogwen yn parhau. Wedi ei gwblhau fe fydd y llwybr yn addas ar gyfer defnydd scwteriaid symudedd (mobility scooters).

- ii) Clwb Cerdded Eryri
Mae'r cynllun teithiau cerdded i bobl gyda nam ar y golwg yn parhau i fod yn llwyddiannus. Mae'r teithiau yn digwydd yn fisol gyda hyd at 30 yn ymuno ar rai o'r teithiau.
- iii) Mae'r Awdurdod hefyd yn cyd-weithio'n agos gyda Hafal - mudiad sy'n rhoi cefnogaeth i bobl sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau iechyd meddwl difrifol. Trefnir teithiau cerdded misol ar gyfer aelodau o'r Ganolfan Galw i mewn ym Mhorthmadog.
- iv) Ers i'r gwaith ar lwybr y mwynwyr gael ei gwblhau, mae'r llwybr wedi profi'n boblogaidd gyda defnyddwyr cadeiriau olwyn. Ym mis Gorffennaf mynychodd 60 o bobl 'taith i bawb' drefnwyd gan Gymdeithas Eryri i ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Parc Cenedlaethol Eryri.
- v) Yn dilyn trafodaeth yn Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Eryri, penderfynwyd prynu dau feic mynydd addasol gydag arian cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng y Comisiwn Coedwigaeth, Chwaraeon Cymru a'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn cael ei weinyddu gan Ddarganfod Dolgellau.
- vi) Unwaith eto, ym mis Gorffennaf daeth disgyblion o Dŷ Meirion (uned o fewn Ysgol y Gader, Dolgellau ar gyfer plant gydag anghenion addysgiadol ychwanegol) am arhosiad deuddydd i Blas Tan y Bwlch. Trefnwyd amryw o weithgareddau ar eu cyfer gan gynnwys ymweliad â Chastell Penrhyn a chyfle i wneud gwaith celf dan arweiniad yr artist Mari Gwent. Mae'r ymweliadau hyn yn cael eu gwerthfawrogi, yn aml dyma'r cyfle cyntaf i'r bobl ifanc anabl gael aros oddi gartre. Caiff yr ymweliad ei ariannu gan yr Awdurdod.

Y Gwasanaeth Cynllunio

- i) Mynychodd sawl aelod o'r adran cynllunio a'r adran polisi ar gwrs hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer cynllunwyr gan Anabledd Cymru fel rhan o gynllun ar y cyd a Chymorth Cynllunio Cymru.
- ii) Cafod llyfryn 'Canllaw Datganiad Mynediad' ei gynhyrchu gan Gymorth Cynllunio Cymru mewn partneriaeth gyda Grwpiau Mynediad Cymru a Fforymau Anabledd. Mae'r adran wedi dosbarthu'r llyfryn i benseiri ac asiantau lleol.

Hyfforddiant

- i) Cafodd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod hyfforddiant ar Gydraddoldeb Anabledd gan Gareth Foulkes, a fu tan yn ddiweddar yn gweithio i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cafwyd adborth ffafriol iawn gan y mynychwyr.
- ii) Cafodd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth hefyd hyfforddiant ar Asesu Effaith Cydraddoldeb - eto'r hyfforddiant wedi ei hwyluso gan Gareth Foulkes.

- iii) Fel rhan o'r cynllun Clwb Cerdded Eryri mynychodd nifer o aelodau staff hyfforddiant gafodd ei gynnal gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru ar ymwybyddiaeth nam ar y golwg a sgiliau tywys.
- iv) Yn ystod mis Chwefror mynychodd nifer o staff yr adran wardeiniaid hyfforddiant Fieldfare Trust - 'Mynediad i Bawb' ar gyfer staff sy'n gweithio yng Nghefn Gwlad. Ariannodd yrr Awdurdod hefyd aelod o Grŵp Mynediad Meirionnydd i fynychu'r cwrs, Cynhaliwyd yr hyfforddiant ym Mhlas Tan y Bwlch.

Cyflogaeth

- i) Drwy'r cynlluniau 'Making Tracks', 'Cultivations' a 'Groundworks' mae nifer o bobl ifanc difreintiedig ac anabl wedi cael profiad gwaith / hyfforddiant gyda'r Awdurdod yn bennaf yng ngardd Plas Tan y Bwlch.
- ii) Bellach, gyda chaniatâd eu pennaeth adran mae modd i staff gael yr hawl i weithio mwy mwy yn eu cartref.

Prif-ffrydio Cydraddoldeb Anabledd

Mae prif-ffrydio Cydraddoldeb Anabledd yn un o brif heriau unrhyw gorff cyhoeddus. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymdrechu i wneud hyn drwy amryw o ffyrdd.

- i) Caiff y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ei gynnwys yng Nghynllun Gwaith Corfforaethol yr Awdurdod.
- ii) Bydd y Tîm Rheoli yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar unrhyw ddatblygiadau ym maes anabledd o fewn yr Awdurdod.
- iii) Mae cynrychiolaeth dda o staff ac aelodau'r Awdurdod yn mynychu'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd.
- iv) Cafodd nifer o staff yr Awdurdod gyfle i ymuno gyda'r teithiau cerdded misol sy'n cael eu trefnu ar gyfer pobl gyda nam ar y golwg. Un o'r buddion yw eu bod yn cael cyfle i ddod i adnabod pobl anabl fel unigolion a thrwy hynny dod yn ymwybodol o'r rhwystrau y maent yn ei wynebu.
- v) Cwblhawyd llyfryn 'Cyfathrebu'n Glir' a dosbarthwyd i'r holl staff. Ynghyd â rhoi canllawiau ar Safonau Gwasanaeth Cwsmer ac Arddull Tŷ, mae'n cynnwys gwybodaeth am sut i drefnu cyfarfodydd hygyrch.
- vi) Cynhyrchodd Gareth Foulkes arweinlyfr - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Anableddau: Cywir ac Anghywir' - ar sut i weithio gyda chydweithwyr a chwsmeriaid anabl. Cafodd y llyfryn ei ddosrannu i'r staff perthnasol.

5. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau mewn lle i asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau ac arferion newydd neu ddiwygiedig, yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau pwysig y mae'n ei wneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 15 sgriniad effaith ar gydraddoldeb, ac yn sgil hynny nid oedd angen parhau i gynnal asesiad effaith llawn. O'r 15 asesiad, roedd y mwyafrif yn cynnwys penderfyniadau a wnaed o dan Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod.

Fe welwch isod restr o bob sgriniad asesu effaith a wnaed, ynghyd â chrynodeb o'r materion y rhoddwyd ystyriaeth iddynt.

1. Maes Parcio Dol Rhedyn

Y bwriad oedd gwerthu'r ased hwn ar y farchnad agored. Pennwyd y gallai'r cynnig hwn effeithio ar drigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr â'r ardal, ac felly cynhaliwyd y trafodaethau'n lleol. Mae lle parcio amgen ar gael gerllaw. Nid oedd y sgriniad cychwynnol wedi pennu unrhyw grwpiau a ddiogelir a fyddai'n teimlo effaith anghymesur yn sgil yr arwerthiant.

2. Toiledau Llanelltyd

Y bwriad oedd gwerthu'r ased hwn ar y farchnad agored. Mae'r toiled cyhoeddus hwn wedi bod ar gau ers rhai blynyddoedd, a chafwyd cwynion gan aelodau o'r gymuned leol ynghylch cyflwr dirywiedig yr adeilad. Gallai gwerthu ar y farchnad agored fod yn fuddiol i'r gymuned leol oherwydd fe all y safle gael ei wella. Nid oedd y sgriniad cychwynnol wedi pennu unrhyw grwpiau a ddiogelir a fyddai'n teimlo effaith anghymesur yn sgil yr arwerthiant gan fod yr adeilad eisoes ar gau ac nid yw'n cael ei ddefnyddio.

3. Llecyn Mwyniant Aberangell

Y bwriad oedd gwerthu'r ased hwn ar y farchnad agored. Mae'r llecyn mwyniant hwn yn cael ei ddefnyddio fel lle parcio ychwanegol o bryd i'w gilydd pan fydd cynebr yngau'n cael eu cynnal yn yr eglwys leol. Cynhaliwyd trafodaethau'n lleol, ac fe ddangoswyd rhywfaint o ddiddordeb mewn prynu'r safle. Mae potensial i ddatblygu tai fforddiadwy lleol ar y safle a fyddai'n fuddiol i'r gymuned leol. O ystyried y ffaith mai o bryd i'w gilydd yn unig y defnyddir y lle parcio, nid oedd y sgriniad cychwynnol wedi pennu unrhyw grwpiau a ddiogelir a fyddai'n teimlo effaith anghymesur yn sgil yr arwerthiant.

4. Porth Gwyn, Plas Tan y Bwlch

Eiddo preswyl yw hwn sy'n cael ei osod i deulu lleol yn y tymor byr. Y bwriad oedd gwerthu'r ased hwn ar y farchnad agored. Y tenantiaid presennol yw'r unig rai y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt. Mae'r tenantiaid wrthi'n prynu eu heiddo eu hunain, felly bychan yw'r effaith arnynt.

5. Mwynglawdd Plwm Parc, Trefriw

Tir mwyniant yw hwn sydd â thenant pori arno ar hyn o bryd. Y bwriad oedd gwerthu'r ased hwn ar y farchnad agored. Ymgynghorwyd â'r tenant pori, ac mae wedi dangos diddordeb mewn prynu'r tir. Nid effeithir ar unrhyw grwpiau eraill yn sgil arwerthiant y tir hwn.

6. Maes Parcio Pont Mwingwly Llyn, y Bala

Y bwriad yw gwerthu'r rhydd-ddaliad i'r clwb rygbi sy'n prydlesu'r maes parcio ar gyfer defnydd y clwb yn unig ar hyn o bryd. Gall effeithio o bosibl ar y gymuned leol, petai'r safle'n cael ei ddatblygu'n ddiweddarach. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynigir y safle gyda chyfamod sy'n cyfyngu ar yr hawl i adeiladu ar y tir.

7. Melin Lechi Ynys y Pandy

Dyma heneb gofrestredig, a chynnig yw hwn i drosglwyddo perchenogaeth i Cadw. Byddai trosglwyddo'r ased i Cadw'n diogelu dyfodol yr heneb a fyddai o fudd i'r genedl gyfan. Ni fyddai newid perchenogaeth yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grwpiau a ddiogelir.

8. Cae Jêl, Dolgellau

Mae'r goedlan fwyniant hon yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth â'r cyngor tref lleol ar hyn o bryd. Y bwriad yw cynnig cyfrifoldeb unigol o'r safle i'r cyngor tref, a fyddai'n sicrhau bod y goedlan yn parhau i gael ei diogelu fel mwyniant lleol. Ni fyddai'r newid posibl yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grwpiau a ddiogelir.

9. Toiledau Cyhoeddus a Safle Picnic Cae Garnedd

Y bwriad yw prydlesu'r safle hwn i Bartneriaid Penllyn, sef grŵp cymuned lleol. Mae'r grŵp lleol hwn wedi mynegi diddordeb mewn rheoli safleoedd yn ardal y Bala. Byddai trigolion lleol ac ymwelwyr yn elwa ar gysylltiad lleol cadarnhaol o'r safle. Gan y byddai'r mwyniant yn aros yr un fath, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar ddefnyddwyr y safle.

10. Maes Parcio, Toiledau Cyhoeddus a Safle Picnic Llangywair

Y bwriad yw prydlesu'r safle hwn i Bartneriaid Penllyn, sef grŵp cymuned lleol. Mae'r grŵp lleol hwn wedi mynegi diddordeb mewn rheoli safleoedd yn ardal y Bala. Byddai trigolion lleol ac ymwelwyr yn elwa ar gysylltiad lleol cadarnhaol o'r safle. Gan y byddai'r mwyniant yn aros yr un fath, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar ddefnyddwyr y safle.

11. Maes Parcio Llanuwchllyn

Y bwriad yw prydlesu'r safle i'r Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd trafodaethau yn lleol ac mae'r Cyngor Cymuned wedi mynegi diddordeb mewn rheoli'r

safle. Byddai hyn yn fuddiol i'r gymuned, gan y byddai'r mwyniant yn cael ei reoli er budd pennaf iddynt. Gan y byddai'r mwyniant yn aros yr un fath, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar ddefnyddwyr y safle.

12. Uned B, Penamser

Adeilad masnachol yw hwn a ddefnyddir at ddibenion storio ac archifo cofnodion. Y bwriad yw terfynu'r brydles gan fod yr Awdurdod wedi prynu a datblygu safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth. Ni chaiff hyn unrhyw effaith ar unigolion.

13. Canolfan Groeso, Harlech

Y bwriad yw terfynu'r brydles a chynnig darpariaeth amgen gyda Cadw mewn adeilad newydd a fyddai'n fwy hygyrch ac yn agosach at safle treftadaeth y byd. Caiff hyn fuddion cadarnhaol i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth, ac yn enwedig i'r rhai ag anableddau a phroblemau symudedd. Nid yw'r gwasanaethau'n cael eu lleihau, felly ni fydd unrhyw effaith andwyol i ddefnyddwyr gwasanaethau na staff.

14. Canolfan Wardeiniaid Nant Peris

Y bwriad yw terfynu'r brydles. Bydd adolygu'r gwasanaeth yn golygu bod y 2 aelod o staff sy'n defnyddio'r safle ar hyn o bryd yn cael eu symud, felly ni fydd angen yr adeilad mwyach. Nid yw aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio'r adeilad hwn, felly nid oes unrhyw effaith andwyol.

15. Datblygu Safle Oqwen

Mae'r safle wrthi'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau helaeth, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, diwrnodau gwybodaeth galw heibio, a rhoddwyd cyflwyniadau i amrywiol grwpiau rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys Fforwm Anabledd Eryri. Mae'r adeilad newydd wedi'i ddylunio mewn ymgynghoriad â Grŵp Mynediad Arfon. Bydd y datblygiad newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr yn sgil mynediad gwell; gwaith dehongli yn y ganolfan a fydd yn hybu dealltwriaeth well o'r ardal; ac arwyddion dwyieithog drwyddo draw.

6. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir
- Gwrywod a menywod a gyflogir, yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
 - Tâl
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
 - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un a wnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2012 160

Proffil oedran

24 ac oddi tanodd	3
25 – 34	19
35 – 44	43
45 – 54	48
55 – 64	39
65 a throsodd	8

Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

Benywod	71
Gwrywod	89

Mae 0.5% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Roedd 4 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaidd).

Yn sgil y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r menywod a gyflogir, yn ôl:

- **Swydd**
- **Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)**
- **Tâl**
- **Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)**
- **Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)**

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad gwrywod a menywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/ Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
1	£6.47			9	4			7		2	4		
2	£7.04			5	3			5	1		2		
3	£8.00	2	1	11	5			12	6			1	
4	£8.72	7	17	5	1		2	12	18		2		
5	£9.91	4	1	3	4			7	5				
6	£11.15		3						3				
7	£12.77	8	13		1	1		9	13		1		
8	£14.43	7	7				1	7	8				
9	£15.55	2	9			1	1	3	10				
10	£16.45	2	3					2	3				
11	£17.44	2	1		1			2	2				
12	£18.36		4			1		1	4				
13	£19.28	1	3					1	3				
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£26.43		3						3				
Prif Swyddog – Prif Weithredwr	£38.89		1						1				

Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd 131 o ymgeiswyr wedi llenwi ffurflenni monitro.

Tarddiad Ethnig

131	Gwyn
0	Cymysg
0	Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
0	Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
0	Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall

Cenedl

89	Gwryw
42	Benyw

Ymgeiswyr ag anabledd yr hoffent roi gwybod amdano
4

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

	Ceisiadau	Penodiadau
Gwryw	5	1
Benyw	2	0
Cyfanswm	7	1

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 75 achlysur gan fenywod a 90 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un a wnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

Nid oedd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Roedd dau weithiwr (gwryw) yn destun gweithdrefnau disgyblu

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Benyw	9
Gwryw	12
Cyfanswm	21